

Mehefin

- 1 *Pentecost*
Yr Athro Alwyn Roberts
- 6 Te Bethlehem am 6.30 o'r gloch, ac i ddilyn –
Lluniau a sgwrs am Tseina yng ngofal Mrs Gwen Owen, Bangor
- 8 Richard Llwyd Jones
- 15 Bugail – Cymun yn oedfa'r bore
- 22 Aled Lewis Evans
Bugail
- 29 Yr Athro Gareth Watts

Grŵp Help Llaw

Cafwyd llwyth ardderchog o nwyddau mewn ymateb i apêl 'Cymorth i Bosnia' ac yn agos i £80 at y tanwydd ar gyfer y daith.

Diolch am bob rhodd ac i bob un a gyfrannodd mewn sawl dull a modd at lwyddiant y bore. Diolch hefyd i'r llwythwyr cymwynasgar yn y glaw. Gweddiwn y caiff Eric Harries siwrne ddiogel a hwylus i Bosnia ac y cawn gyfle i'w gefnogi unwaith eto y flwyddyn nesaf.

Tŷ Gobaith yng Ngogledd Cymru

Mae aelodau Grŵp Help Llaw eisoes wedi dechrau codi arian at yr hosbis newydd yma i blant yng Nghonwy. Maent wrthi'n gwau a gwerthu ugeiniau o gywion Pasg (yn cynnwys wyau) at yr achos. Y gobaith yw y daw Luned Yaxley o Tŷ Gobaith i ymweld â'r Garn ym mis Mehefin.


Cyfraniadau ar gyfer y rhifyn nesaf erbyn 8fed Mehefin i:

Mr Dewi G Hughes
Bod Hywel
(828026)
dewighughes@lineone.net

Mrs Marian B Hughes
14 Maes y Garn
(828662)
Marian_Hughes@btinternet.com

GAIR O'R GARN

CYLCHLYTHYR
EGLWYS Y
GARN,
BOW STREET



Rhif 9
Gwanwyn
2003

Duw cariad yw

Gweinidog
Parch R W Jones
Haddef
6 Maes Afallen
Bow Street
 (01970 828006)

Ysgrifennydd
Mr Eddie Jenkins
Eryl
Llandre
Bow Street
(01970 828147) 

Gair gan y Gweinidog

Cymysgedd o deimladau sydd ynof wrth ysgrifennu hyn o lith. Mae hi'n rhyfel ers rhai dyddiau yn Irac a chlywir yn ddyddiol am fywydau'n cael eu colli. (Faint mwy na wyddom ddim amdanynt?) Ond wrth edrych yn ôl, gwyddom hefyd fod cannoedd o bunnau wedi eu codi drwy'r Cinio Bara Caws i Gymorth Cristnogol; gwerth cannoedd o bunnau o nwyddau wedi eu hanfon i Bosnia, trwy law Mr Eric Harries; ac fe dderbyn Tŷ Gobaith yng ngogledd Cymru eto o ymroad a haelioni aelodau'r Garn.

'Does dim rhyfedd fod un o'r aelodau wedi ymateb 'Rhyfedd o fyd! Y wlad yn mynd i ryfel fydd yn dwyn bywydau a ninnau, yma yn y Garn, yn casglu er mwyn ceisio cynnal a chadw bywydau.'

Wrth ddiolch am yr haelioni, yr hyn a welwn ni yw ffydd yn cael ei thro'i'n weithredoedd a ninnau'n gwrthod rhoi i mewn i anobaith a dweud na allwn ni wneud dim. Efallai mai ychydig ydyw, wyneb yn wyneb â'r angen, ond eto bydd hyn yn gymorth mawr i'r anghenus. 'Ond beth allwn ni ei wneud yn wyneb rhyfel?' yw'r cwestiwn y dyddiau hyn. Mae diymadferthedd ac anobaith yn cydio ynom! Gallwn greu cadwyn o weddi, cymdeithas fydd yn gweddio dros bawb yng nghanol y drin, gweddio mai rhyfel byr fydd o, rhag bod dim colli bywyd dianghenraid. 'Llawer a ddichon taer weddi y cyfiawn.'

Boed bendith

Robert W Jones

Mynwent y Garn – Cronfa Cyrbio'r Llwybrau

Cyn gynted ag y bydd y tywydd yn addas, bydd y gwaith o osod cyrbiau bob ochr i'r llwybrau yn y fynwent yn aildechrau. Diolchwn am y cyfraniadau a gafwyd hyd yma at y gwaith. Mae'r cyfanswm wedi cyrraedd £1,000 tuag at y gost o £2,600. Dymuna Mr Eddie Jones, Gofalwr y Fynwent, ddiolch am eich cefnogaeth. Mae rhestr o'r cyfranwyr i'w gweld yng nghynteddau Capel y Garn ac yn y Festri.

Ebrill

- 2 Cymdeithas y Chwiorydd
Eryl Evans, Llandre – 'Cwitliau'
- 6 Parch J Tudno Williams – bore
Y Gymanfa Ganu am 2.30 a 5.30 o'r gloch
Arweinydd: Dr Rhidian Griffiths
Telediad o'r rhaglen *Dechrau Canu Dechrau Canmol*
o'r Garn am 8 o'r gloch
- 13 Parch Wiliam Owen
- 18 *Gwener y Groglith*
Oedfa Gymun dan ofal y Bugail am 9 o'r gloch
- 20 *Sul y Pasg*
Bugail – oedfa'r hwyr ym Methlehem, Llandre
- 27 Miss Beti Griffiths
Parch Gareth Alban
- ## **Mai**
- 4 Parch J R Jenkins
- 11 Parch O T Evans
- 18 Bugail – Cymun yn oedfa'r hwyr
- 20–22 Sasiwn y De yng Nghapel Carmel, Llanilar
'Gad fi'n llonydd' – cyflwyniad gan blant ysgolion Sul
y cylch, nos Fawrth am 7 o'r gloch
Pregeth gan Y Parch Ifan Rh. Roberts, nos Iau am 7 o'r gloch
- 23 Pwyllgor Blaenoriaid
- 25 Oedfaon i'w trefnu